Y 40 ysbyty gorau yn cael eu henwi fel rhan o adroddiad meincnodi blynyddol CHKS

- mae'r astudiaeth yn mesur perfformiad ysbytai'r DU mewn tri maes allweddol: effeithiolrwydd clinigol a chanlyniadau, effeithlonrwydd a phrofiadau cleifion a gofalwyr.
- mae'r 40 ysbyty gorau yn cyflawni'r graddau perfformiad uchaf ers pum mlynedd
- mae 14 ysbyty yn cadw eu lle yn y 40 ysbyty gorau am bum mlynedd yn olynol
- yr "ymddiriedolaeth ysbyty sydd wedi gwella fwyaf" yw Ysbyty St George yn Llundain

Mae CHKS, y prif gwmni meincnodi gofal iechyd, wedi cyhoeddi'r 40 ysbyty gorau yn seiliedig ar ddangosyddion o fewn tri maes allweddol: effeithiolrwydd clinigol a chanlyniadau, effeithlonrwydd a phrofiadau cleifion a goflawyr*. Llunnir yr adroddiad o ddata a gasglwyd dros 12 mis yn dod i ben fis Rhagfyr 2004, sef y data diweddaraf sydd ar gael i'r GIG.

Mae CHKS yn defnyddio'r dangosyddion canlynol:

- Marwolaethau a addaswyd yn ôl risg
- Cyfradd aildderbyn i'r ysbyty fel achos brys (a addaswyd yn ôl cymysgedd achosion)
- Cyfradd aildderbyn i'r ysbyty fel achos brys yn dilyn triniaeth torri clun (aaddaswyd yn ôl cymysgedd achosion)
- Dychwelyd adref yn dilyn triniaeth ar gyfer strôc (a addaswyd yn ôl cymysgedd achosion)
- Dychwelyd adref yn dilyn triniaeth ar gyfer torri clun (a addaswyd yn ôl cymysgedd achosion)
- Cymhlethdodau a addaswyd yn ôl risg
- Cyfradd trosi Achosion Dydd (a addaswyd yn ôl cymysgedd achosion)
- Cyfradd bacteremia MRSA a gofnodwyd
- Cyfradd Achosion Dydd ar gyfer gweithdrefnau targed (a addaswyd yn ôl cymysgedd achosion)
- Hyd arhosiad a addaswyd yn ôl risg
- Costau cyfeirio Grwpiau Adnoddau Gofal Iechyd gydag addasiad ffactor grymoedd y farchnad
- Apwyntiadau cleifion allanol a fethwyd (ymweliad 1af, a addaswyd yn ôl arbenigedd)
- Apwyntiadau cleifion allanol a fethwyd (ymweliad dilynol, a addaswyd yn ôl arbenigedd)
- Gweithdrefnau nas cynhaliwyd – penderfyniad yr ysbyty
- Cyfran y triniaethau llawfeddygol a ddarparwyd i gleifion dros 65 oed (a addaswyd yn ôl cymysgedd achosion)
- Arolwg o farn Cleifion Allanol
- Arolwg o farn y rhai sy'n mynd i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys

Mae'r adroddiad eleni yn dangos y lefelau perfformiad uchaf yn y 40 ysbyty gorau o'u cymharu â'r pedair blynedd flaenorol. Ymhlith yr ysbytai gorau, roedd nifer y marwolaethau 7% yn is na'r disgwyl, o ystyried y mathau o gleifion a gafodd eu trin, o gymharu â ffigur o 4.6% yn 2003. Yn ogystal, gwelwyd gostyngiad o 10% yn nifer y dyddiau gwely yn erbyn yr hyn a ragwelwyd yn y 40 ysbyty gorau.

CHKS Limited
1 Arden Court • Arden Road • Alcester • Warwickshire • B49 6HN • Tel: 01789 761600 • Fax: 01789 764608

Dywedodd Graham Harries, Prif Weithredwr CHKS:
"Mae'n wefreiddiol gweld bod y 40 ysbyty gorau eleni wedi cyflawni'r lefel perfformiad uchaf o'r pum mlynedd yr ydym wedi bod yn cynnal yr astudiaeth hon. Dros y cyfnod hwn, mae'r dangosyddion wedi datblygu a thyfu a maent bellach yn cynnig darlun mwy cyfannol o Ymddiriedolaethau'r DU, gan ystyried mesurau perfformiad ar draws pob maes a gweithgareddau o farwolaeth i driniaethau cleifion allanol.

Llwyddodd 14 o ymddiriedolaethau i gadw eu lle yn y rhestr o'r 40 ysbyty gorau am bum mlynedd yn olynol sy'n gyflawniad gwych. Mae saith ymddiriedolaeth wedi cyrraedd y 40 ysbyty gorau am y tro cyntaf, gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd St George yn Llundain, a gafodd y wobr am yr Ymddiriedolaeth sydd wedi gwella fwyaf.

Nodiadau i Olygyddion

Mae CHKS Ltd yn darparu gwybodaeth gofal iechyd gymharol ar gyfer Ymddiriedolaethau'r GIG a'r sector gofal iechyd annibynnol. Ein nod yw helpu sefydliadau gofal iechyd i wella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ar gyfer cleifion, drwy ddadansoddi data, meincnodi a dehongli.

Gyda 15 mlynedd o brofiad o weithio gyda'r sector gofal iechyd yn unig ac ar hyn o bryd yn cynorthwyo dros 120 o Ymddiriedolaethau Aciwt y GIG, y Sector Annibynnol a sefydliadau Gofal Sylfaenol, mae CHKS wedi datblygu portffolio o raglenni sy'n mynd i'r afael â materion allweddol sy'n wynebu clinigwyr a rheolwyr presennol y GIG, a sicrhau a gwella ansawdd data ar yr un pryd. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar lywodraethu clinigol, rheoli perfformiad, arfarnu clinigwyr ac ailgyflunio gwasanaethau.

Ar gyfer ymholiadau'r cyfryngau, cysylltwch â:

Nina Wainwright neu Alex Bell yn Citigate Dewe Rogerson, 01604 232223 neu anfonwch e-bost at nina.wainwright@citigatedr.co.uk neu alexandra.bell@citigatedr.co.uk

John Smith Cyfarwyddwr Gweithredol yn CHKS, 020 733 5520 neu anfonwch e-bost at jsmith@chks.co.uk

Prif Swyddfa: CHKS Ltd, 1 Arden Court, Arden Road, Alcester, Warwickshire B49 6HN
Ffôn: 01789 761600 Ffacs: 01789 764608

Mae'r astudiaeth yn cynnwys data o 120 o ymddiriedolaethau ysbyty ledled y DU. Mae ffigur 'Gwirioneddol' a 'Disgwyliedig' i bob dangosydd ac mae mynegai yn deillio o hyn. Y ffigur 'Gwirioneddol' yw'r un a geir o wybodaeth pob ysbyty ei hun. Ceir y ffigur 'Disgwyliedig' drwy ddefnyddio lefel perfformiad gyffredinol ysbytai tebyg. Pan fo perfformiad yn debygol o fod yn wahanol yn ôl oedran, rhyw a nodweddion eraill y cleifion ac yn ôl mathau o achosion, e.e. marwolaethau, cafwyd ffigurau penodol ar gyfer pob cyfuniad, a chrëwyd cyfanswm y ffigur 'Disgwyliedig' ar gyfer yr ysbyty sy'n adlewyrchu ei gymysgedd o gleifion.

40 Ysbyty gorau y DU ar gyfer 2005, yn nhrefn yr wyddor yw:

GIG Tayside - Adran Gwasanaethau Aciwt
Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych
Ymddiriedolaeth GIG Dwyrain Swydd Gaer
Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd De Tyneside
Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Hinchingbrooke
Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd St George
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Gorllewin Sussex Frenhinol
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Ardal Weston
Ymddiriedolaeth GIG Maidstone a Tunbridge Wells
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Aciwt Gogledd Cumbria
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Bae Morecambe
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Brenhinol Cernyw
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Bromley
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Caerefrog
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Gogledd Hampshire
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Gorllewin Suffolk
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Gorllewin Swydd Hertford
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Newcastle Upon Tyne
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Plymouth
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Portsmouth
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Prifysgol Epsom a St Helier
Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai South Tees
Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Athrofaol Canolfan Feddygol Queens
Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Bedford
Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Kingston
Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Poole
Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Prifysgol Norfolk a Norwich
Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Radcliffe Rhydychen
Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Southport ac Ormskirk
Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Unedig Frenhinol Caerfaddon
Ymddiriedolaeth HSS Cymuned ac Ysbytai Ulster
Ymddiriedolaeth HSS Down Lisburn
Ymddiriedolaeth HSS Grŵp Ysbytai ac Ysbyty Deintyddol Brenhinol
Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Doncaster a Bassetlaw
Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Caergrawnt
Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbyty Iarlles Caer